TGAU

Fframwaith Amlinellol Awgrymiedig ar gyfer Uned 1:
Crefydd a Themâu Athronyddol

# Cristnogaeth



## Fframwaith Amlinellol Awgrymedig ar gyfer Uned 1: Crefydd a Themâu Athronyddol

## Cristnogaeth

Mae Uned 1 yn cynnwys 50% o'r cymhwyster TGAU. Felly, **dim ond fel canllaw** fydd nod y cynllun dysgu a gynigir isod, yn seiliedig ar tua thair awr o Astudiaethau Crefyddol bob pythefnos dros flwyddyn academaidd. Cyfanswm y gwersi yn y cynllun hwn yw pum deg pump yn seiliedig ar un awr bob gwers. Yr argymhelliad yw y caiff y cwrs **cyfan** ei addysgu **bob amser.**

Dylai'r asesiad fod yn ffurfiannol **ac** yn ddifyr. Lle y bo'n bosibl, dylid ceisio defnyddio'r un fformat â'r arholiad terfynol neu fformat tebyg iddo. Dylid rhannu cynlluniau marcio â'r myfyrwyr bob amser. Yn ddelfrydol, dylai hyn fod tuag at ddiwedd yr uned er mwyn sicrhau eu bod yn cael amser i ddod i arfer â'r gwaith ac ymddiddori ynddo i ddechrau.

Mae'r Moral Maze ar Radio 4 yn adnodd ardderchog i'r sawl sydd â diddordeb, ynghyd â The Infinite Monkey Cage (hefyd ar Radio 4). Mae'r ddau ar gael fel podlediadau sy'n golygu ei bod yn haws dewis penodau perthnasol.

**Rhan A: Credoau, dysgeidiaethau ac arferion craidd (gwersi 1-13)**

| Gwers | Maes Astudio | Cynnwys Penodol | Cysyniadau | Adnoddau | Gweithgareddau Dysgu Posibl |
|---|---|---|---|---|---|
| **1** | Credoau | Duw: Creawdwr a chynhalydd, natur hollalluog, natur hollewyllysgar, natur hollwybodus, natur hollbresennol | Natur hollalluog; natur hollewyllysgar; natur hollwybodus | Byrddau gwyn rhyngweithiol, Beibl ar-lein (dim ond un opsiwn posibl yw hwn: https://www.biblegateway.com/). Dylid llunio rhestr o'r dyfynodau o'r rhan hon o'r cwrs a gallai'r myfyrwyr eu rhoi yn eu llyfrau/defnyddio Google classroom neu adnoddau tebyg eraill. Byrddau gwyn unigol. | Gan ddefnyddio copïau caled o'r Beibl, gellid addysgu'r myfyrwyr sut i ddefnyddio Beibl (llyfr, pennod, adnod) |
| **2** | Credoau | Credoau ar ddysgeidiaethau ar y Creu o Genesis 1-3 **(canolbwyntio ar 1:1-3);** natur dynoliaeth; delwedd o Dduw | Gorchymyn dwyfol | https://www.truetube.co.uk/film/beginning;<br><br>https://www.youtube.com/watch?v=xlETz4b40yU (Gall fod braidd yn anodd ond mae'n werth ei ddefnyddio gyda disgyblion mwy galluog);<br><br>http://www.philosophyofreligion.info/christian-ethics/divine-command-theory/;<br>os mai Duw greodd y bydysawd, a yw'n dda yn awtomatig felly?<br>https://www.truetube.co.uk/film/problem-evil;<br><br>https://www.truetube.co.uk/interactive/problem-evil-quiz; Mae'r bennod o The Simpsons lle mae Bart yn y capel yn gwerthu ei enaid yn lle da i ddechrau trafod natur yr enaid;<br>delwedd o Dduw, enaid, moesol, ewyllys rydd, rhesymegol, creadigol, pechadurus **(canolbwyntio ar Genesis 1:26-28 a 2:15-17)** | Mae dealltwriaeth o bwysigrwydd y Beibl yn hanfodol i ategu cred Gristnogol; dadansoddiad o Genesis 5:1 mewn perthynas â'r ddelwedd o Dduw |
| **3** | Credoau | y Drindod; Iesu fel y Meseia | y Drindod; yr Ysbryd Glân; yr Ymgnawdoliad | Tair agwedd ar un Duw: y Tad (Luc 15:11-32), y Mab (Ioan 1:1-3, 14), yr Ysbryd Glân (Ioan 14:25-26, Galatiaid 5:22-23).<br>Iesu fel **Ymgnawdoliad** o Dduw;<br>https://www.truetube.co.uk/film/alien-abduction-christianity.<br><br>http://www.bbc.co.uk/schools/gcsebitesize/rs/god/chris | Dadansoddi'r testunau beiblaidd; lluniwch eich diagram eich hun o'r Drindod;<br>Parhewch o'r wers ddiwethaf ac ymhelaethwch ar rôl yr Iesu; cadarnhewch yr |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | | tianityrev2.shtml;<br><br>http://whatsinthebible.com/activity-library/the-trinity/ (diagram syml iawn).<br>(Mathew 16:13-17), Iachawdwr, y Gair; yr **Ymgnawdoliad** (Ioan 1:1-3, 14) iachawdwriaeth a'r iawn (Ioan 3:16, 14:6); byrddau gwyn ar gyfer ymgais i ddiffinio **Ymgnawdoliad**<br>http://www.bbc.co.uk/religion/religions/christianity/history/jesus_1.shtml<br>(Gallai'r myfyrwyr ddarllen y testun a gweld sawl gwaith y mae'r geiriau Ymgnawdoliad/Ymgnawdoli yn ymddangos ac egluro'r cyd-destun) | hyn a ddysgwyd ar rannau perthnasol |
| **4** | Credoau | Genedigaeth, croeshoeliad, atgyfodiad ac esgyniad Iesu | Atgyfodiad; Meseia; ymgnawdoliad | https://www.truetube.co.uk/film/last-supper-2014<br><br>https://www.truetube.co.uk/film/crucifixion-2014<br><br>https://www.truetube.co.uk/film/resurrection-2014<br>Dolen i rannau ar y fanyleb:<br>Genedigaeth: Mathew 1:18-2:12 a Luc 1:26-35; 2:21<br>Marwolaeth: Marc 15:1-39<br>Atgyfodiad: Ioan 20:1-21<br>Esgyniad: Actau 1:9-11 | Gwyliwch y tri fideo yn eu trefn ac ysgrifennwch ddisgrifiad byr o'r digwyddiadau ar gyfer pob clip |
| **5** | Arferion | Moesoldeb: Gorchymyn dwyfol/diamod ac agweddau sefyllfaol/perthynolwr at wneud penderfyniadau moesegol | Gorchymyn dwyfol | Cyfeiriwch yn ôl at adnoddau/awgrymiadau blaenorol ar y ddamcaniaeth gorchymyn dwyfol uchod; moeseg/moesoldeb:<br><br>https://www.truetube.co.uk/film/abortion-male-perspective (nid ar erthyliad y mae'r prif ffocws yma, ond yn hytrach ar yr ymagwedd wahanol rhwng y sawl sy'n dilyn llwybr y diamodwr yn hytrach na'r llwybr sefyllfaol/perthynolwr - mae hefyd yn cyd-fynd â materion yn ddiweddarach yn Rhan B) | Trafodwch ddiamodaeth yn hytrach na sefyllfaol; gwyliwch y fideo a lluniwch gysylltiad ag erthyliad |
| **6** | Arferion | Dysgeidiaethau Iesu | Atgyfodiad; yr iawn | Darllenwch ddameg y Defaid a'r Geifr (Mathew 25:31- | Trafodwch ei hystyr |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | (Mathew 7:13-14; 25:31-46) | | 46) | gan gyfeirio at yr atgyfodiad a'r iawn |
| **7** | Arferion | Cariad (agape), maddeuant; trysorau'r ddaear/yn y Nefoedd | Agape; yr iawn; atgyfodiad | https://www.youtube.com/watch?v=tgQyBLWFDBI – Mathew 6:5-13 (nodwch y cyfeiriad beiblaidd ar ddechrau'r clip fideo).<br>Luc 10:25-37 - dameg y Samariad Trugarog: ceisiwch ddychmygu fersiwn fodern.<br>Ioan 13:34-35; rhannau eraill.<br>Mathew 5:43-44; 18:21-22; Luc 23:34;<br>Cysylltwch y syniad o drysorau ar y ddaear ac yn y nefoedd yn uniongyrchol â'r rhan bennod Mathew 6:19-21.<br>Hefyd, astudiwch Luc 16:19-31 | Gwyliwch y fideo a cheisiwch ddychmygu bod yn yr un sefyllfa; pam y mae Gee Walker yn maddau?<br>Sut mae'r addewid o'r atgyfodiad yn helpu Cristnogion i fyw eu bywydau? |
| **8** | Arferion | Amrywiaeth Cristnogaeth: Catholig, Anglicanaidd, yr Eglwys yng Nghymru, anghydffurfiaeth, eglwysi a chapeli | Deialog rhyng-ffydd; agape | http://chartist.cynefin.wales/protest_in_pews - Safbwynt diddorol yn ystyried gwrthryfel y Siartwyr yng Nghasnewydd yn 1839. | Os bydd amser yn caniatáu, gellid edrych ar ddylanwad yr iaith Gymraeg mewn cymunedau eglwysig. |
| **9** | Arferion | Rôl yr eglwys leol; Nodweddion amrywiol eglwysi a chapeli ac amrywiaeth o arferion addoli | Deialog rhyng-ffydd; atgyfodiad; agape | Ymweliad ag eglwys leol;<br>http://request.org.uk/life/church/church-tours/;<br>Gellid gwneud hyn **cyn** ymweliad ag eglwys leol. Efallai y gellid cael cynllun i'r myfyrwyr ei lenwi yn ystod eu hymweliad; os nad yw hyn yn ymarferol, mae'r wefan hon yn cynnig cynllun llawr da o gynllun eglwys draddodiadol;<br>http://myweb.tiscali.co.uk/hstchg/abbey | Ymwelwch ag eglwys leol;<br>Tynnwch lun o eglwys blwyf nodweddiadol yng Nghymru a'i labelu |
| **10** | Arferion | Pwysigrwydd gweddi (cyhoeddus a phreifat) | Yr iawn | Mathew 6:5-13 - Gweddi'r Arglwydd; Mathew 18:20 | Mae'n bwysig pwysleisio beth mae Iesu'n ei ddweud wrth ei ddisgyblion cyn adrodd y weddi (nad yw'n dechrau tan adnod 9) |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **11** | Arferion | Swyddogaethau cymdeithasol a chymunedol eglwysi; Grwpiau Cristnogol sy'n gweithio dros Gyfiawnder Cymdeithasol fel Cyngor Rhyng-ffydd Cymru | Deialog rhyng-ffydd | Enghraifft yng Nghymru: http://stpaulsnewport.org.uk/events/foodbank/<br><br>Shelter Cymru: http://sheltercymru.org.uk/<br><br>Byddin yr Iachawdwriaeth: http://www.salvationarmy.org.uk/<br><br>Cyngor Rhyng-ffydd Cymru: http://www.cytun.org.uk/interfaithwales/interfaith_eng_about.html<br><br>Gweler hefyd: Cyngor Eglwysi'r Byd a'r fforwm Cristnogion-Mwslimiaid | Gofynnwch i rywun o'ch eglwys leol ddod i siarad am y gwaith a wnânt yn y gymuned; edrychwch yn fwy gofalus ar rai o ymgyrchoedd presennol Byddin yr Iachawdwriaeth |
| **12** | Arferion | Erledigaeth Cristnogion yn y byd modern | Deialog rhyng-ffydd; Yr Ysbryd Glân | Mathew 10:22 - archwiliwch bwysigrwydd y rhan hon<br><br>Archesgob Oscar Romero: http://www.romerotrust.org.uk/who-was-archbishop-oscar-romero<br><br>Cristnogion Coptaidd yn yr Aifft: http://www.telegraph.co.uk/news/2016/05/26/hundreds-of-egyptian-muslims-attack-christian-woman-and-homes-af/ | Lluniwch gysylltiad rhwng ymgyrchoedd dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Christnogion yn cael eu herlid yn y byd modern |
| **13** | Asesu | | | | |